# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR RHAGLEN CHRAFFU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 12 RHAGFYR 2016 AM 4.30 PM

**YN BRESENNOL**: Y cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| U C Clay | A C S Colburn | S E Crouch |
| E W Fitzgerald | F M Gordon | T J Hennegan |
| J W Jones | E J King | G Owens |
| G J Tanner | | |

| Aelodau Cyfetholedig(wyr) | Aelodau Cyfetholedig(wyr) | Aelodau Cyfetholedig(wyr) |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | C A Holley | P R Hood-Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Wendy Parkin | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): N J Davies, C R Evans, D J Lewis a/ac P M Meara
Aelodau Cyfetholedig(wyr):

### 102 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

### 103 GWAHARDD PLEIDLEISIAU CHWIP A DATGAN CHWIPIAU'R PLEIDIAU.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chyhoeddwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

### 104 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2016 fel cofnod cywir.

### 105 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

106 **SESIWN HOLI AC ATEB AELOD Y CABINET: AELOD Y CABINET DROS OEDOLION A PHOBL DDIAMDDIFFYN (Y CYNGHORYDD JANE HARRIS).**

Rhoddodd y Cynghorydd J Harris, Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn, anerchiad agoriadol byr ar ei Phortffolio Cabinet cyn derbyn cwestiynau gan y pwyllgor, a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cefnogi pobl i fyw gartref ac Asesiad o Anghenion
- System Taliadau Uniongyrchol
- Statws cyflogwr Taliadau Uniongyrchol a'r gofyniad i ddarparu pensiynau gweithle
- Sefydlogrwydd darparwyr sector preifat a'r;
- Gallu i ymateb i fethiant yn y farchnad
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac Ailasesiadau
- Partneriaethau â'r Gwasanaeth Iechyd ac Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Arferion gweithio Cyngor Sir Fynwy
- Y model 4 haen gan gynnwys:
    - Darparu gwasanaethau cludiant digonol
    - Rôl sefydliadau cymunedol wrth ddod o hyd i ffactorau risg
    - Gweithgareddau yn ystod y dydd i helpu pobl i gysylltu
    - Cynnydd mewn gofal cartref a'r pwysau ar y gyllideb
- Y potensial i greu incwm
- Teleofal a datblygu Technoleg Gynorthwyol
- Penderfyniadau allweddol dros y misoedd i ddod - Adolygiadau Comisiynu, datblygu ymagwedd 'Hwb' at wasanaethau dydd.

Nododd y Cynghorydd J Harris y byddai'n darparu rhagor o wybodaeth i'r pwyllgor am:

- ofynion pensiynau gweithle o ran Taliadau Uniongyrchol e.e. cyflogi gofalwr; a
- thaliadau ar gyfer Teleofal/Larymau Cymunedol.

Diolchodd y cadeirydd i'r Cynghorydd J Harris am ddod i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

107 **ADRODDIADAU CYNNYDD Y PANEL PERFFORMIAD CRAFFU:**

Rhoddodd y Cynghorydd C Holley, y Cynullydd, y diweddaraf ar y gwaith a wnaed o ran Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid. Aeth ati i grynhoi'r gweithgareddau allweddol dros y chwe mis diwethaf, gan dynnu sylw at gyfranogaeth y panel wrth graffu ar adolygiadau comisiynu, materion sy'n codi a'r effaith a gafwyd gan y panel.

Siaradodd yn arbennig am:

- Wariant cyfalaf
- Eglurder adroddiadau perfformiad corfforaethol i'r cyhoedd

- Y broses adolygiadau comisiynu a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer opsiynau a ffefrir e.e. safbwyntiau allanol, gwerth am arian
- Datganiadau cyllidebol
- Arian wrth gefn
- Adrodd am gwynion corfforaethol
- Strategaeth ddigidol
- Llyfrgelloedd
- Y Gronfa Drawsnewid

**CYTUNWYD** i gofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 108 RHAGLEN WAITH CRAFFU 2016/17.

Cyflwynodd y cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu ar gyfer 2016/17.

Darparodd yr adroddiad y canlynol i'r pwyllgor:

- Y Rhaglen Waith Craffu bresennol;
- Cyfleoedd am graffu cyn penderfynu;
- Cynnydd â'r paneli craffu a'r gweithgorau cyfredol.

Nodwyd y byddai'r Panel Ymchwilio Trechu Tlodi bellach yn anelu at adrodd i gyfarfod y pwyllgor ar 13 Chwefror.

Hysbyswyd y pwyllgor y pennwyd dyddiad posib, sef 17 Ionawr, i gynnal cyfarfod arbennig er mwyn craffu cyn penderfynu ar adroddiad nesaf y Cabinet ar ddatblygu Sgwâr y Castell. Roedd hyn yn amodol ar gyhoeddi adroddiad y Cabinet yn ei agenda ar gyfer 19 Ionawr.

Cadarnhaodd y Cadeirydd mai gweithgor 'Cynhwysiad Digidol' fyddai'r un nesaf a fyddai'n cael ei sefydlu.

Nododd y Cadeirydd hefyd fod y tîm craffu wedi derbyn adborth cadarnhaol ar gyfer y gefnogaeth a ddarparwyd ganddynt i Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW. Cynhelir y Cyfarfod Craffu Rhanbarthol nesaf ar 27 Chwefror 2017.

Amlygodd y Cydlynydd Craffu y cafwyd mwy o sylw gan y cyfryngau drwy'r wasg leol eleni, a chyfeiriodd at hyn fel un o'r canlyniadau gwella ar gyfer y maes craffu. Rhoddodd enghreifftiau o straeon sydd wedi deillio o'r Adroddiadau Craffu.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 109 AELODAETH PANELI A GWEITHGORAU CRAFFU.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad a oedd yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i aelodaeth y paneli/gweithgorau craffu.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r diwygiadau canlynol i'r paneli/grwpiau, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad:

- Panel Perfformiad Ysgolion - tynnu enw'r Cyng. Tony Colburn
- Gweithgor Tai Amlfeddiannaeth - tynnu enw'r Cyng. Wendy Fitzgerald
- Ymchwiliad Partneriaethau a Chydweithio – tynnu enw'r Cyng. David Cole.

## 110 LLYTHYRAU CRAFFU.

Adroddodd y cadeirydd am gofnod llythyrau'r Tîm Craffu. Adroddwyd am yr ohebiaeth a gafwyd oddi wrth Panel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD** y dylid **NODI** cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

## 111 ADBORTH O DDIGWYDDIADAU CRAFFU DIWEDDAR.

Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau craffu'n ddiweddar.

## 112 DIGWYDDIADAU CRAFFU SYDD AR DDOD.

Nid oedd dim digwyddiadau craffu ar ddod.

## 113 CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO (ER GWYBODAETH).

**NODWYD** cynllun gwaith y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2016/2017.

## 114 DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD PWYLLGOR YN Y DYFODOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2016/17 (POB UN AM 4.30PM).

**NODWYD** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd y pwyllgor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

## 115 DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD NESAF PANELI/GWEITHGORAU.

Rhoddwyd dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.43 pm

**CADEIRYDD**